**Cylch Gorchwyl y Bwrdd Busnes**

Medi 2025

**1. Cefndir**

Sefydlwyd y Bwrdd Busnes yn 2022 gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd yn dilyn adolygiad o strwythur llywodraethu'r Urdd. Mae’r Bwrdd Busnes yn is fwrdd o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd i sicrhau datblygiad llwyddiannus adran Gyllid yr Urdd.

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sydd â’r cyfrifoldeb cyfreithiol yn eu rôl fel cyfarwyddwyr anweithredol cwmni Urdd Gobaith Cymru ac yn ymddiriedolwyr yr elusen. Bydd aelodau byrddau eraill yr Urdd yn cyflawni dyletswydd ymgynghorol yn unig.

**2. Pwrpas Bwrdd Busnes yr Urdd**

Ar y cyd gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid bydd y bwrdd yn gosod cyfeiriad strategol ariannol yr Urdd i sicrhau bod yr adnoddau ariannol mewn lle i gynnig y profiadau a’r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc yng Nghymru a thu hwnt Mae rheolaeth ariannol gref yn hanfodol i elusennau ac mae rôl y Bwrdd Busnes yn goruchwylio’r materion ariannol yn chwarae rhan allweddol yn strwythur llywodraethiant yr Urdd. Mae diogelu sefyllfa ariannol yr elusen, goruchwylio’r defnydd o adnoddau ariannol a phenderfyniadau buddsoddi’r elusen yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan yr elusen yr adnoddau i gyflawni ei hamcanion wrth barhau i ddiogelu fod gweithgareddau’r elusen yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

3. **Cyfrifoldebau Bwrdd Busnes**
(gweler y tabl dilynol)

- Adolygu’r cyfrifon rheoli chwarterol, a’r gyllideb flynyddol yr adrannau ac argymell y gyllideb i’r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Adolygu y cyfrifon statudol blynyddol i rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bod y wybodaeth ariannol yn gyson gyda’r cyfrifon rheoli
- Adolygu a diweddaru portffolio eiddo’r Urdd
- Adolygu, cymeradwyo a monitro prosiectau cyfalafol
- Monitro perfformiad buddsoddiadau a chynnig argymhellion o ran newidiadau i’r buddsoddiadau
- Derbyn, adolygu a chymeradwyo ceisiadau busnes am wariant allan o arian wrth gefn
- Cymeradwyo a monitro polisïau ariannol yr Urdd

**4. Aelodaeth**

Bydd y Bwrdd yn cynnwys yr aelodau canlynol:
- Cadeirydd sydd yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd
- O leiaf 5 a hyd at 15 aelod a enwebwyd trwy alwad agored a/neu drwy wahoddiad.
- O leiaf ddau aelod 18-25 oed.

Bydd aelodau staff yn mynychu yn unol â chais y Cadeirydd, sef:
- Prif Weithredwr yr Urdd
- Cyfarwyddwr Cyllid

Mae gan yr Urdd yr hawl i adolygu aelodaeth y Bwrdd hwn i adlewyrchu nodweddion cydraddoldeb cynhwysiant ac amrywiaeth.

Gall Cadeirydd y Bwrdd wahodd cynrychiolwyr eraill i ymuno â'r Bwrdd hwn am ran o gyfarfod, cyfarfod cyfan neu gyfres o gyfarfodydd lle y bo'n berthnasol. Gall aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fynychu cyfarfodydd y Bwrdd hwn, ond nid fydd ganddynt bleidlais.

Bydd gofyn i bob aelod o'r Bwrdd hwn gwblhau asesiad sgiliau i sicrhau cydbwysedd rhyw / sgiliau / oed a phrofiad.

**5. Trefniadau Cyfarfodydd**

Bydd y Bwrdd Busnes yn cyfarfod o leiaf ddwywaith ac ar y mwyaf hyd at bedair gwaith y flwyddyn ac yn ychwanegol os bydd galw i drafod materion brys.

Cynhelir y mwyafrif o'r cyfarfodydd yn rhithiol a disgwylir y bydd o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yn un 'mewn person'.

Darperir cefnogaeth weinyddol gan yr Urdd i drefnu'r cyfarfodydd, paratoi'r cofnodion a'r agenda ynghyd â dosbarthu papurau'r Bwrdd.

**6. Presenoldeb a Chyfnod Tymor aelodau'r Bwrdd Busnes**

Bydd gofyn i aelodau nodi eu presenoldeb neu ymddiheuriadau ar gyfer pob cyfarfod. (hyd at 4 y flwyddyn). Mae hawl gan yr Urdd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd atal aelod o'r Bwrdd os nad yw yn bresennol, heb ymddiheuriad neu nodi'r rheswm am fethu mynychu 50% o'r cyfarfodydd

Penodir aelodau'r Bwrdd hwn am gyfnod o dair blynedd, pan fydd rhaid ail gychwyn y broses enwebu ar gyfer aelodau newydd. Bydd pob aelod yn gymwys i ystyried eistedd am un tymor arall o dair blynedd. Ni all unigolyn eistedd ar y Bwrdd Busnes am fwy na dau gyfnod dilynol. (hy dim mwy na 6 mlynedd heb doriad).

**7. Cadeirydd ac is Gadeirydd**

Bydd gofyn i'r Bwrdd benodi is-gadeirydd. Bydd gan yr is-gadeirydd, yn ôl yr angen, yr hawl i fynychu (heb hawl pleidlais) gyfarfodydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Bydd y Cadeirydd yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y pwyllgor ac aelodau unigol y pwyllgor.

**8. Cyswllt rhwng y Cadeirydd a Chyfarwyddwr Adran**

Mae'n arfer da ac yn ddisgwyliedig i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr gwrdd cyn cyfarfodydd y Bwrdd, er mwyn paratoi, trafod materion perthnasol ac i gytuno ar agenda. Oni bai bod achos brys neu anghyffredin, neu fod y Cyfarwyddwr yn cysylltu am gyngor penodol, nid yw'n ddisgwyliedig fod unrhyw gyfarfodydd pellach yn angenrheidiol.

**9. Datganiad Diddordeb aelodau'r Bwrdd**

Rhaid i aelodau'r Bwrdd gwblhau datganiad o ddiddordeb yn flynyddol, a hefyd ddatgan unrhyw ddiddordeb personol / masnachol / teuluol ar gychwyn pob cyfarfod. Os bydd aelod yn datgelu

hynny, ni chaiff gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater. Bydd hawl gan y Cadeirydd, os yw yn berthnasol, i ofyn i'r aelod hynny i adael y cyfarfod.

**10. Cworwm**

Rhif y Cworwm bydd pedwar neu'r nifer agosaf at un rhan o dri o gyfanswm aelodau'r Bwrdd gan eithrio aelodau staff.

**11. Perthynas i ac adrodd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr**

Bydd y Cadeirydd yn rhoi diweddariad o gyfarfod y Bwrdd Busnes yng nghyfarfodydd Y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Bydd cofnodion y Bwrdd hwn yn cael eu rhannu gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd y Bwrdd Celfyddydau yn derbyn diweddariad perthnasol ar lafar gan y Cadeirydd o gyfarfod Y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Gall aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fynychu cyfarfodydd y Bwrdd hwn, ond, ac eithrio'r Ymddiriedolwyr sy'n aelodau llawn o'r Bwrdd Busnes ni fydd ganddynt bleidlais.

Gall y Bwrdd Ymddiriedolwyr ofyn (yn ôl yr angen ) i Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr i gyflwyno diweddariad ar drafodaethau / gwaith y Bwrdd i aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

**12. Sefydlu Is Bwyllgorau a chyngor allanol**

Gall Bwrdd Busnes, trwy'r Cadeirydd:-

- sefydlu is-bwyllgor(au) yn ôl yr angen i gyflawni ei rôl yn effeithiol.
- ofyn am gyngor proffesiynol allanol angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n fwy effeithiol. Os oes cost yn gysylltiedig â derbyn cyngor o'r fath, yna rhaid i'r Cadeirydd gael trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr cyn cytuno i unrhyw wariant. Os nad yw'n briodol cysylltu â'r Prif Weithredwr, yna dylid cysylltu gyda Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**13. Awdurdod Dirprwyedig**

Bydd gan y Bwrdd Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cymeradwyo cynlluniau sy'n berthnasol i'r Bwrdd Busnes ac sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Strategol y mudiad a Strategaeth a chynllun gwaith yr Adran berthnasol. Bydd gofyn i'r byrddau dderbyn awdurdod Bwrdd Ymddiriedolwyr ar wariant a datblygiadau sydd tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn y Cynllun Strategol.

**14. Gweinyddiaeth Drefniadol**

Rhoddir o leiaf saith diwrnod clir o rybudd cyn pob cyfarfod.

Bydd agenda a phapurau'r cyfarfod fel arfer yn cael eu dosbarthu saith diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd a Chyfarwyddwr yr adran yn cytuno'r agenda ymlaen llaw.

**15. Rôl a chyfrifoldeb Aelodau Bwrdd Busnes**

**Bydd gofyn i aelodau'r bwrdd hwn:-**

- paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd
- neilltuo amser i ymgyfarwyddo â gwaith yr Urdd a chynlluniau penodol maes gweithredu'r Bwrdd

- mynychu o leiaf 2 gyfarfod y flwyddyn a Chyfarfod Blynyddol Urdd Gobaith Cymru. (Bydd y mwyafrif o’r cyfarfodydd ar lein gyda chyfarfodydd ‘mewn person‘ yn ôl y galw.)
- cymryd rhan mewn is-bwyllgorau / grwpiau Gorchwyl a Gorffen os yn berthnasol

**Cydnabyddiaeth ariannol a buddion**
Bydd yr Urdd yn talu treuliau teithio os yn mynychu cyfarfod ‘mewn person’ wyneb i wyneb.

**Rôl a chyfrifoldebau aelod.**
- Cefnogi’r Cyfarwyddwr(wyr) i lunio a chymeradwyo gweledigaeth, amcanion a deilliannau strategol hir dymor yr adran(nau)
- Adolygu, craffu a monitro perfformiad yr adran(nau),
- Hybu agenda ar gyfer gwelliant parhaus o safbwynt darparu gwasanaethau'r adran
- Craffu i annog yr adran(nau) i ddarparu cynnig cynhwysol i blant a phobl ifanc sy’n wynebu rhwystrau at fynediad hawdd i ddarpariaeth yr Urdd
- Darparu cyngor arbenigol i’r Cyfarwyddwr yn ôl y gofyn
- Cefnogi’r Cyfarwyddwyr yr adran i gyflawni nod Net Sero yr Urdd
- Gweithio gyda’r Cyfarwyddwr i sicrhau cefnogaeth a gofal dros staff a gwirfoddolwyr yr adran(nau)
- Dathlu effaith darpariaeth yr Urdd ar y Gymraeg a’r gwahaniaeth personol a chymdeithasol ym mywydau plant a phobl ifanc
- Galluogi llais aelodau’r mudiad i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau
- Bod yn llysgennad i’r Urdd
- Gweithredu yn unol â gwerthoedd yr Urdd (Cefnogi, Parchu, Ymbweru)
- Cynorthwyo ar y cyd gyda’r cyfarwyddwr i ddatblygu aelodau ifanc y Bwrdd drwy fod yn bydi / rhoi cyngor/ mentora / rhannu profiad

**16. Adolygu’r Cylch Gorchwyl**
Adolygir y cylch gorchwyl yn flynyddol gan gyflwyno newidiadau i’w cymeradwyo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd.

| Disgrifiad | Cyfrifoldebau'r Bwrdd Busnes | Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr |
|---|---|---|
| Cyfrifon Statudol | Adolygu y cyfrifon statudol blynyddol gan gynnwys:-<br>• Adroddiad yr Ymddiriedolwyr<br>• Y SOFA, Mantolen a'r Llif Arian<br>• Y nodiadau<br>• Polisïau cyfrifo<br>Rhannu sylwadau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r cyfrifon rheoli. | Cymeradwyo'r cyfrifon |
| | Adolygu y llythyr cynrychiolaeth wrth yr archwilwyr a rhannu sylwadau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg. | Cymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth |
| | Adolygu prisiant eiddo yr Urdd yn y cyfrifon ac argymell i'r Bwrdd fod y prisiant yn bwrpasol | Cymeradwy prisiant eiddo yn y cyfrifon |
| Arian wrth gefn | Monitro polisi arian wrth gefn yr Urdd | |
| Cyfrifon Rheoli Chwarterol | Adolygu cyfrifon rheoli chwarterol, gan gynnwys:<br>• Crynodeb o'r P&L<br>• Mantolen<br>• Llif arian<br>• P&L bob adran<br>• Rhagolwg tan ddiwedd y flwyddyn | Adolygu crynodeb o'r cyfrifon rheoli. |
| Cyllideb | Adolygu y gyllideb blynyddol ac argymell y gyllideb i'r Bwrdd | Cymeradwyo |
| | Adolygu cynllun cyfalaf yr Urdd | Cymeradwyo |
| | Asesu argymhelliad codiad cyflog wrth y Bwrdd Adnoddau Dynol yng nghyddestun a ydyw yn fforddiadwy | Cymeradwyo |
| Gwariant Cyfalaf / Eiddo | Adolygu a chymeradwyo prosiectau cyfalafol* | Gwariant arwyddocaol yn mynd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr * |
| | Monitro gwariant a chynnydd prosiectau cyfalafol | |
| | Asesu unrhyw argymhellion o ran gwerthu eiddo | |
| Buddsoddiadau | Monitro perfformiad buddsoddiadau | Adolygu crynodeb o berfformiad buddsoddiadau |
| | Monitro lefel risg y buddsoddiadau. | Gosod lefel risg y buddsoddiadau. |
| | Monitro unrhyw gyfyngiadau ar fuddsoddi | Gosod unrhyw gyfyngiadau ar fuddsoddi |
| | Cynnig argymhellion o ran newidiadau i'r buddsoddiadau. | Cymeradwyo newidiadau i'r buddsoddiadau. |
| Eisteddfod | Yn flynyddol, derbyn ac adolygu argymhelliad Bwrdd y Celfyddydau o ran lleoliad yr Eisteddfod | |
| | Yn flynyddol, derbyn ac adolygu cyfrifon yr Eisteddfod. | |

| | | |
|---|---|---|
| Ceisiadau Busnes (gwariant refeniw) | Derbyn, adolygu a chymeradwy ceisiadau busnes am wariant allan o arian wrth gefn (h.y. gwariant heb ei gyllidebu) wrth y Byrddau eraill / UDRh | Gwariant arwyddocaol yn mynd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr * |

Mae'r isod wedi eu cynnwys yng nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg

| | |
|---|---|
| Archwilwyr Allanol | • Derbyn ac adolygu llythyr yr archwilwyr.<br>• Monitro cynnydd yr UDRh yn erbyn unrhyw bwyntiau sydd wedi eu cod |
| | Monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd yr archwiliad allanol, gan gynnwys:<br>• Cymeradwyo ffi yr archwilwyr allanol<br>• Monitro unrhyw waith ychwanegol er mwyn sicrhau annibyniaeth.<br>• Asesu eu hannibyniaeth yn flynyddol.<br>• Cymeradwyo eu telerau. |
| | Adolygu ail-apwyntiad yr archwilwyr allanol yn flynyddol ac argymell hynny i'r Bwrdd |
| | Os bydd archwilydd allanol yn ymddiswyddo:<br>• ymchwilio i'r materion sy'n arwain at hynny.<br>• goruchwylio y broses o benodi archwilwyr newydd. |
| Adroddiad Blynyddol | Adolygu Adroddiad y Trysorydd |
| Risg | Adolygu'r gofrestr risg a sut mae'r Urdd yn rheoli a lliniaru'r risgiau hynny. |
| | Adolygu'r polisi rheoli risg |